***Statws*** *Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) croes bennawd yn cynnwys darpariaethau sy'n rhagolygol.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, Croes Bennawd: Troseddau yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 15 Mai 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

# Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017

**2017 dccc 2**

## RHAN 3

TYBACO A CHYNHYRCHION NICOTIN

## PENNOD 2

MANWERTHWYR TYBACO A CHYNHYRCHION NICOTIN

PROSPECTIVE

*Troseddau*

### 38 Troseddau

(1) Mae person sy'n cynnal busnes tybaco neu nicotin mewn mangre yng Nghymru heb gael ei gofrestru yn cyflawni trosedd.

(2) Mae person cofrestredig sy'n cynnal busnes tybaco neu nicotin mewn mangre yng Nghymru ac eithrio mangre a ddatgenir yng nghofnod y person yn y gofrestr yn cyflawni trosedd.

(3) Nid yw is-adran (2) yn gymwys yn achos busnes tybaco neu nicotin sy'n cael ei gynnal mewn mangre sy'n strwythur symudol, stondin, pabell neu gerbyd.

(4) Mae person cofrestredig sy'n cynnal busnes tybaco neu nicotin mewn mangre sy'n strwythur symudol, stondin, pabell neu gerbyd yn ardal awdurdod lleol ac eithrio un a ddatgenir yng nghofnod y person yn y gofrestr yn cyflawni trosedd.

(5) Mae person cofrestredig sy'n methu, heb esgus rhesymol, â chydymffurfio ag adran 33 (dyletswydd i hysbysu am newidiadau penodol) yn cyflawni trosedd.

***Statws*** *Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) croes bennawd yn cynnwys darpariaethau sy'n rhagolygol.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, Croes Bennawd: Troseddau yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 15 Mai 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

(6) Mae person sy'n euog o drosedd o dan is-adran (1) yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy.

(7) Mae person sy'n euog o drosedd o dan is-adran (2), (4) neu (5) yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 2 ar y raddfa safonol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 38 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 126(2)**

**Statws**
Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) croes bennawd yn cynnwys darpariaethau sy'n rhagolygol.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, Croes Bennawd: Troseddau yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 15 Mai 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**
– specified provision(s) amendment to earlier commencing S.I. 2017/949, art. 3 by S.I. 2017/967 art. 2